| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Medi, 2012** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodiadau'r Pwyllgor Safonau** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Penodi Aelod o Gyngor Cymuned ac un Aelod Annibynnol (Cyfetholedig) am dymor pellach i'r Pwyllgor Safonau a cheisio enwebiadau i gael tri Chynghorydd Cymuned i eistedd ar Banel Penodiadau Arbennig.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r rheoliadau llywodraethu mewn perthynas â chyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o bump i naw aelod sy'n cynnwys pobl sy'n annibynnol ar y Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cyngor Tref a Chymuned. Yn sgil treigl amser a'r cyfyngiadau amser cyfreithiol y gall Aelodau Cymunedol ac Aelodau Annibynnol wasanaethu, mae bellach yn angenrheidiol i ddau Aelod Annibynnol sy'n ymddeol gael eu disodli, a hefyd i ailbenodi Aelod Cymunedol ac un aelod annibynnol presennol am dymor pellach yn y swydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn gwneud y penodiadau canlynol mewn perthynas â'r Pwyllgor Safonau: -

(1) Bod David Jones, Cynghorydd Tref a Chymuned Cyngor Cymuned Llanferres yn cael ei ailbenodi am un tymor arall yn y swydd.

(2) Bod yr aelod annibynnol, Paula White, yn cael ei hailbenodi am dymor terfynol o bedair blynedd.

3.1.1 Bod tri Chynghorydd Sir yn cael eu penodi i eistedd ar Banel Penodiadau Arbennig y Pwyllgor Safonau er mwyn, yn yr achos cyntaf, ystyried ceisiadau ar gyfer yr aelodau panel lleyg a chymunedol; ac wedi hynny fel panel cyflawn, er mwyn ystyried ceisiadau ar gyfer y ddwy swydd wag fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ailbenodi'r Aelod o'r Cyngor Cymuned

Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau'n gofyn cyn ailbenodi cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned, dylid ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymdeithasau'r Cyngor Sir a Chymuned. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn bellach wedi dirwyn i ben, ac ni ddaeth ymatebion i law. Mynegodd yr Aelod presennol o'r Cyngor Cymuned ddymuniad i barhau yn y rôl ac mae gwahoddiad i'r Cyngor ailbenodi.

4.2 Ailbenodi'r Aelod Annibynnol (Cyfetholedig).

Diwygiwyd y ddeddfwriaeth Pwyllgor Safonau yn 2006 ac ers hynny gall aelodau wasanaethu ail dymor yn olynol, ac yn achos aelodau annibynnol, caiff hyn ei gyfyngu i bedair blynedd. Mae'r aelod annibynnol sy'n gymwys i wasanaethu tymor pellach wedi mynegi dymuniad i barhau yn ei rôl ac mae gwahoddiad i'r Cyngor ailbenodi. Wrth wneud yr ailbenodiad am un tymor arall, mae'r rheoliadau diwygiedig bellach yn amodi nad oes gofyniad i ailbenodi trwy hysbyseb.

4.2 Sefydlu Panel Penodiadau Arbennig

Mae Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau hefyd yn sefydlu Panel Penodiadau Arbennig. Ei swyddogaeth yw ystyried ceisiadau am unrhyw swydd wag ar gyfer yr aelodau annibynnol (h.y. heb fod yn y Cyngor), ac i wneud argymhellion i'r Cyngor Llawn. Bydd y Panel yn cynnwys dim mwy na phum aelod panel. Rhaid i un aelod o'r panel fod yn unigolyn lleyg, un yn aelod o gyngor cymuned a rhaid i hyd at dri fod yn Gynghorwyr Sir.

Mae'r Panel hwn ond yn cyfarfod yn achlysurol iawn pan fydd swydd wag yn codi. Felly, gofynnir i'r Cyngor wneud y tri phenodiad hyn i'r Panel hwn er mwyn i'r broses recriwtio i ddisodli aelodau annibynnol gychwyn. Nid yw'r rheoliadau'n mynnu y dylid cydbwyso'r Panel hwn yn wleidyddol, ond mae Cynghorau blaenorol wedi gwneud enwebiadau gwleidyddol cytbwys, felly byddai hyn yn gyfwerth ag un Llafur, un Annibynnol ac un Ceidwadol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol sy'n cefnogi'r safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn helpu bod yn sail i weithrediad y Cyngor o'i swyddogaethau democrataidd.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes goblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Bydd rhywfaint o gostau hysbysebu uniongyrchol ac o ran amser Swyddog wrth recriwtio'r ddau aelod annibynnol newydd.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Mae'r ymgynghoriadau statudol gofynnol wedi'u cynnal.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r penodiadau'n sylweddol a dylai fod modd eu talu o fewn yr adnoddau presennol.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni eu gwneud i'w lleihau?**

Bydd y Cyngor yn torri'r ddeddfwriaeth lywodraethol ac ni fydd pwyllgor ar waith i ddelio ag unrhyw faterion y cyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus.

**10. Y Grym i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006.